

Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Gweithio gyda'r Diwydiant



Cynnwys

Cynnwys	1
Cyflwyniad	1
Diffinio Troseddau Bwyd.....	3
Beth rydym ni'n ei wneud, a sut.....	5
Sut mae'r Uned wedi'i strwythuro?.....	7
Beth yw'r peryglon a achosir gan droseddau bwyd?.....	8
Mynd i'r afael â throseddau bwyd: cydamcan.....	10
Sut gallwn ni gefnogi'r diwydiant?.....	11
Trwy gynyddu gwaith ymgysylltu a gweithio â phartneriaid	12
Sut gallwch chi ein cefnogi?	12
Rhowch wybod i ni pan fo gennych amheuon ehangach am drosedd bwyd.....	13
Gweithio gyda Rheolwr Cysylltiadau.....	13
Hyrwyddo'ch cefnogaeth i'r Uned a'r adnodd Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol	13
Ymgorffori mecanweithiau atal twyll yn eich model busnes.....	13
Cydweithio â ni er mwyn mynd i'r afael â throsedd a pherygl trosedd i chi.....	14
Diogelu eich Gwybodaeth.....	14
Siarter Diwydiant yr Uned	15
Cysylltu â ni	16

Cyflwyniad



Braint yw bod yn bennaeth ar yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (yr Uned), a minnau wedi fy mhenodi ryw 18 mis yn ôl. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Uned wedi esblygu o'i swyddogaeth gwybodaeth (*intelligence*) wreiddiol i fandad ehangach, gan gynnwys uwchraddio ei chapasiti ar gyfer gweithgarwch allgymorth a chyswllt â'r diwydiant, yn ogystal â datblygu swyddogaeth ymchwilio fwy traddodiadol. Mae hyn yn debyg i'r hyn a welir mewn nifer o feysydd eraill ar ymylon cyrff gorfodi'r gyfraith mwy traddodiadol. Nod hyn oll yw diogelu defnyddwyr a'r diwydiant rhag gweithgareddau anonest mewn cadwyni cyflenwi bwyd, gan sicrhau cefnogaeth i fusnesau cyfreithlon sy'n cyflenwi cynnyrch diogel a dilys i ddefnyddwyr yn gyson.

Mae gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant bwyd ac eraill yn sylfaenol os ydym am barhau i gryfhau ein gallu cyfunol i fynd i'r afael â throseddu yn y sector hwn, gan sicrhau bod y Deyrnas Unedig (DU) yn amgylchedd sy'n ei gwneud yn anodd i'r rheiny sy'n ceisio elwa ar weithgarwch anghyfreithlon a pheryglus.

Bûm yn dyst i berthynas rhwng yr Uned a nifer o fusnesau a sefydliadau eraill sy'n aeddfedu o hyd, ac rwyf wedi fy nghalonogi gan yr awydd cadarnhaol a pharhaus i ddatblygu'r berthynas ymhellach. I'r perwyl hwn, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r fersiwn ddiweddaraf o'r fframwaith hwn ar gyfer cyswllt rhwng y diwydiant bwyd a'r Uned o fewn yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

Mae'r fframwaith yn nodi cylch gwaith ehangach yr Uned mewn mwy o fanylder, ac fel y soniais uchod, ei nod yw annog rhannu gwybodaeth yn agored er budd y diwydiant bwyd a defnyddwyr yn y DU. Mae hefyd yn nodi, yn bwysig, ein hymrwymiad i'r diwydiant wrth ymdrin â gwybodaeth mewn modd sensitif a chymesur.

Wrth i mi deipio'r rhagair byr hwn, rwy'n ymwybodol iawn o'r amgylchedd rydym bellach yn gweithredu ynddo ers dyfodiad COVID-19, ond hyderaf y bydd y canllaw hwn yn ein paratoi yn dda at ddiogelu'r cyhoedd rhag troseddau bwyd yn y dyfodol, sut olwg bynnag fydd ar hynny.



Darren Davies

Pennaeth yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Beth yw'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd?

Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (yr Uned) yn rhan o'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

Ein tasg yw gorfodi'r gyfraith, ac rydym yn ymroi i ddiogelu defnyddwyr a'r diwydiant bwyd cyfreithlon rhag anonestrwydd difrifol o fewn cadwyni cyflenwi bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym yn gweithio'n agos ag Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban, sy'n rhan o Safonau Bwyd yr Alban.

Rydym yn gweithio i nodi peryglon troseddol i fwyd a diod y DU, gan ffocysu ein hadnoddau yn y manau cywir a gweithio â'r partneriaid cywir i sicrhau'r canlyniadau gorau.

Pwysig: Yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (NCA) sy'n ymdrin â halogiad cynnyrch bwyd. Bydd yr arferion a'r perthnasoedd sydd ar waith gennych yn hyn o beth yn parhau yr un fath.

Diffinio Troseddau Bwyd

Anonstrwydd difrifol sy'n effeithio'n niweidiol ar naill ai diogelwch neu ddilysrwydd bwyd yw troseddau bwyd. Mae troseddau / twyll bwyd yn peryglu eiddo deallusol ac iechyd pobl ledled y byd. Wrth ystyried p'un a ddylid arwain, cefnogi, neu gydlynu ymchwiliad, bydd Pennaeth yr Uned yn ystyried y canlynol:

- Blaenoriaethau strategol yr Uned fel y'u nodir yn ei strategaeth reoli
- Cwmpas daearyddol a graddfa'r drosedd dybiedig

- Natur a hyd a lled y niwed potensial neu arfaethedig i'r canlynol:
 1. Y cyhoedd
 2. Gweithredwr busnes bwyd
 3. Hyder yn niwydiant bwyd y DU

Yn yr Uned, rydym wedi nodi saith arfer fel y prif ddulliau a ddefnyddir i gyflawni troseddau bwyd:

Dwyn – Cymryd meddiant o gynhyrchion bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid oddi wrth eu perchennog cyfreithiol mewn modd anonest gan fwriadu elwa'n ariannol o'u defnyddio neu eu gwerthu.

Prosesu anghyfreithlon – Lladd neu baratoi cig a chynhyrchion cysylltiedig mewn safleoedd heb eu cymeradwyo, neu gan ddefnyddio technegau heb eu cymeradwyo.

Dargyfeirio gwastraff – Dargyfeirio bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid sydd i fod i wastraff yn ôl i'r cadwyni cyflenwi perthnasol yn anawdurdodedig.

Difwyno – Lleihau ansawdd cynnyrch bwyd drwy ychwanegu sylwedd estron, gyda'r bwriad o leihau costau cynhyrchu, neu wella'r ansawdd ymddangosiadol.

Amnewid – Disodli cynnyrch bwyd neu gynhwysyn gyda sylwedd arall sydd o fath tebyg ond o ansawdd gwaeth.

Camgynrychioli – Marchnata neu labelu cynnyrch i bortreadu ansawdd, diogelwch, tarddiad neu oed y cynnyrch yn anghywir.

Twyll dogfennau – defnyddio dogfennau ffug neu rai sydd wedi'u camddefnyddio er mwyn gwerthu, marchnata neu dystio dros gynnyrch twyllodrus neu gynnyrch sy'n is na'r safon.

Rydym yn ceisio gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau eich bod yn cael yr wybodaeth orau ac eich bod yn barod i nodi ac asesu twyll, a gweithredu yn ei gylch.

Gan gydweithio â Safonau Bwyd yr Alban, ein gweledigaeth yw sicrhau nad oes troseddau difrifol o fewn cadwyni cyflenwi bwyd y DU, a bod amgylchedd gelyniaethus iddynt. Ein nod yw bod defnyddwyr, y llywodraeth a'r diwydiant yn ein hystyried yn rhagweithiol, yn arloesol ac yn broffesiynol.

Amlinellir strategaeth, cenhadaeth a gwerthoedd yr Uned isod:

- Ein gweledigaeth yw sicrhau nad oes anonestrwydd difrifol o fewn cadwyni cyflenwi bwyd y DU, a bod amgylchedd gelyniaethus iddynt.
- Ein cenhadaeth yw atal, nodi ac ymchwilio i droseddau bwyd fel bod defnyddwyr yn hyderus bod eu bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.
- Ein gwerthoedd yw: Bod yn atebol, proffesiynol, arloesol, gwydn, wedi ein cefnogi ac wedi ein grymuso

Amcanion strategol

- Atal bwyd rhag bod yn anniogel neu'n annilys o ganlyniad i anonestrwydd
- Tarfu ar droseddu a dwyn troseddwyr o flaen eu gwell
- Adeiladu gallu domestig a byd-eang i fynd i'r afael â throseddau bwyd

Lleihau gwendidau

- Diogelu – cynyddu diogelwch rhag troseddau bwyd
- Paratoi – lleihau effaith troseddu lle mae'n digwydd

Lleihau bygythiadau

- Erlid – Ymchwilio i bobl sy'n cyflawni troseddau bwyd, a tharfu arnynt
- Atal – atal pobl rhag cyflawni troseddau bwyd

Beth rydym ni'n ei wneud, a sut

Caiff ein gwaith ei lywio gan y themâu eang a nodir yn Strategaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol y Llywodraeth, a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2018.

Dyma'r themâu:

Atal

Gellir lleihau peryglon troseddau bwyd drwy atal troseddwyd rhag troseddu, neu eu hatal rhag dod yn droseddwyd yn y lle cyntaf. Mae'r elfen hon o'n gweithgarwch atal troseddau, yn canolbwyntio, felly, ar droseddwyd. Mae sail dros gredu y gall lefelau cydymffurfio isel â chyfraith bwyd arwain at anonestrwydd difrifol.

Diogelu

Gellir hefyd drechu gwendidau troseddau bwyd trwy fesurau diogelu. Mae sicrhau bod amgylcheddau cynhyrchu, gweithgynhyrchu a manwerthu bwyd yn rhai gelyniaethus i droseddwyd weithredu ynddynt yn elfen allweddol o unrhyw ddull cyfannol tuag at atal troseddu. Mae angen i ni wybod lle caiff arferion twyllodrus eu nodi. Mae hyn yn ein galluogi i gymryd camau priodol yn erbyn troseddwyd a nodir er mwyn diogelu'r cyhoedd a'r diwydiant.

Paratoi

Y nod fan hyn yw coleddu (*cultivate*), cynnal, a gwella ein hymgysylltu â phartneriaid gorfodi'r gyfraith, y diwydiant a phartneriaid eraill yn y sector preifat.

Byddwn yn datblygu rhyngweithio effeithlon ymysg y rheiny sy'n gorfodi'r gyfraith yn y DU a'r tu hwnt. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r sector preifat, gan gynnwys cyrff masnachu ac amrywiaeth o gymdeithasau diwydiant. Mae'r elfen hon yn canolbwyntio ar werth strategol buddsoddi mewn cynyddu capasiti a gallu, yma yn y DU ac mewn gwledydd sydd newydd ddechrau datblygu cyfreithiau gorfodi er mwyn ymateb i droseddau bwyd.

Erlid

Gellir atal bygythiadau hefyd drwy erlid a tharfu ar weithgarwch troseddol penodol gyda'r holl adnoddau sydd ar gael i ni a'n partneriaid. Er y gellir tarfu'n llwyddiannus drwy fesurau cyfiawnder troseddol, yn aml gellir cael effaith ehangach drwy ddefnyddio gwrth-fesurau cyfreithlon a moesegol nad ydynt yn fesurau cyfiawnder troseddol, yn ogystal ag ymgyrchu a thynnu nwyddau anniogel oddi ar y farchnad.

Nodir y canlyniadau rydym yn eu disgwyl o'n gweithgareddau, a'r camau rydym yn eu cymryd i'w cyflawni, yn y tabl isod:

Lleihau troseddau bwyd trwy:

- Gasglu a defnyddio gwybodaeth troseddau bwyd er mwyn mynd ag ymholiadau yn eu blaen.
- Gweithredu a chefnogi camau a gymerir gan gyrff eraill sy'n gorfodi'r gyfraith, megis awdurdodau lleol neu wasanaeth yr heddlu.
- Arwain a chefnogi ymyriadau i atal, rhwystro a tharfu ar droseddau bwyd.
- Gwella canlyniadau cyfiawnder troseddol ymchwiliadau troseddau bwyd ar gyfer defnyddwyr a busnesau bwyd sydd wedi dioddef o achos troseddau bwyd.

Lleihau pryder ymysg defnyddwyr ynghylch troseddau bwyd trwy:

- Ddarparu asesiadau rheolaidd sy'n dangos ein dealltwriaeth o beryglon troseddau bwyd i'r DU.
- Sicrhau bod bygythiadau'n cael eu blaenoriaethu ar sail y risg fwyaf o niwed i ddefnyddwyr, y diwydiant a budd ehangach y cyhoedd.
- Sefydlu a chadw proffil cyhoeddus uchel ar gyfer materion troseddau bwyd.
- Dangos arweiniad wrth ymateb i droseddau bwyd yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon

Sut mae'r Uned wedi'i strwythuro?

Mae'r Uned yn cynnwys dwy rheolaeth gorchymyn arbenigol sef:

- Y Rheolaeth Gwybodaeth ac Atal
- Y Rheolaeth Ymchwilio

Mae'r Rheolaeth Gwybodaeth ac Atal yn gyfrifol am y canlynol:

Allgymorth – Yn gyfrifol am reoli perthnasoedd domestig a rhyngwladol yr Uned a chynyddu gallu gyda phartneriaid ar draws gwahanol sectorau. Mae hyn yn cynnwys cyswllt ag awdurdodau lleol a'r heddlu, ymgysylltu â'r diwydiant ac ysgrifenyddiaeth Global Alliance. Bydd swyddogion o'r tîm hwn yn ceisio datblygu'r perthnasoedd â'r diwydiant i hwyluso llif gwybodaeth sensitif.

Datblygu Gwybodaeth (*intelligence*) – Casglu a datblygu gwybodaeth i nodi achosion penodol o droseddu.

Dadansoddi Gwybodaeth – Diwallu anghenion dadansoddi gwybodaeth strategol a thactegol yr Uned ehangach.

Atal – Nodi, datblygu a gweithredu ymyriadau nad ydynt yn ymyriadau cyfiawnder troseddol i leihau gwendidau troseddau bwyd trwy dargedu'r rheiny sy'n galluogi troseddau a'r cyfleoedd i droseddu.

Y Swyddfa Trosedd Bwyd – Y 'drws blaen' ar gyfer gwybodaeth a gwybodaeth (*intelligence*) sy'n dod i mewn ac yn gadael yr Uned, a'r pwynt cyswllt gweithredol ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y DU a thramor, a phartneriaid eraill. Mae'r Swyddfa hefyd yn darparu cefnogaeth weinyddol ehangach ar draws yr Uned, yn ogystal â briffio, llywodraethu, ac adrodd, yn unol â phrosesau cyfredol yr ASB.

Mae'r Rheolaeth Ymchwilio yn gyfrifol am y canlynol: Ymchwiliadau Troseddol – Cynnal ymchwiliadau twyll cymhleth ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gyda thîm datgelu pwrpasol â gallu ymchwilio ariannol. Fel arfer, bydd y rhain yn droseddau o dan Ddeddf Twyll 2006, Deddf Enillion Troseddau 2005, a'r Gyfraith Gyffredin

Beth yw'r peryglon a achosir gan droseddau bwyd?

Mae troseddau bwyd yn peri colledion gwerth £219 biliwn i ddiwydiant bwyd a diod y DU. Gall effaith troseddau bwyd fod yn niweidiol iawn i ddefnyddwyr, busnesau bwyd unigol, cymunedau lleol, yr economi ac enw da'r DU dramor.

Ceir bygythiadau ar sawl lefel: o weithredoedd anonest ar hap gan droseddwr unigol, i weithgarwch troseddol cyfundrefnol gan grwpiau sy'n dangos rhyw fesur o reolaeth, cyd-drefnu a rhwydweithio â throseddwr eraill i gyflawni twyll neu droseddau eraill. Mae'r rhwystrau rhag cael troedle yn yr economi bwyd yn gwneud bwyd yn ddewis heriol i droseddwr, ond mae'r bygythiad o du troseddau difrifol a chyfundrefnol yn un real.

Mae troseddau bwyd – a'r canfyddiad ohonynt – yn creu pwysau ariannol o fewn y sector. Gall y rhain effeithio'n negyddol ar y farchnad a thanseilio busnesau cyfreithlon. Bydd colli hyder yng ngallu cadwyni bwyd y DU i wrthsefyll troseddu yn niweidio enw rhagorol ein diwydiant bwyd, yma yn y DU a thramor, gyda chanlyniadau economaidd negyddol yn yr hir-dymor.

Mae'r DU yn elwa ar fwyd a diod sydd gyda'r mwyaf diogel a dilys yn y byd. Serch hynny, mae yna fygythiadau, a pho fwyaf yr ymdrech i'w deall, mwyaf y gellir ei wneud i atal niwed i ymddiriedaeth a hyder defnyddwyr.

Mae amcangyfrif maint ac effaith troseddau bwyd yn her. Gellir cyflawni twyll ymhell cyn i'w effeithiau ddod i'r amlwg. Bydd troseddwr yn ceisio cuddio eu troseddau. Mae'r heriau o ran adrodd, cofnodi ac ymateb y rheiny sy'n gorfodi'r gyfraith i dwyll yn hysbys. Rydym yn bwrw golwg ar y dull hwn er mwyn dechrau mynd i'r afael â rhai o'r heriau hynny.

Cydnabyddir bod gan droseddau bwyd nodweddion penodol a fydd wastad yn cynnig heriau wrth geisio eu canfod, ac wrth geisio deall ac asesu maint a natur y broblem yn llawn. Nid yw troseddau bwyd o reidrwydd yn ganfyddadwy trwy ddigwyddiadau diogelwch bwyd, ac o'r herwydd mae eu darganfod gan y rheiny sy'n gorfodi'r gyfraith yn heriol iawn.

Dyma pam mae adrodd gan bartneriaid y diwydiant yn allweddol i waith yr Uned. Mae gwyliadwriaeth a hyder y diwydiant i nodi a rhannu pryderon â ni ynghylch camweddu tybiedig o fewn cadwyni cyflenwi bwyd yn hanfodol wrth nodi a mynd i'r afael â throseddau sy'n effeithio ar fusnesau cyfreithlon y DU. Mae hyn yn galluogi

swyddogion i ymchwilio a datblygu gwybodaeth, a, lle bo'n briodol, symud ymlaen at ymchwiliadau neu gyfleoedd cyfreithlon eraill i darfu ar y rheiny yr amheuir eu bod yn droseddwr.

Mynd i'r afael â throseddau bwyd: cydamcan

I'r diwydiant a defnyddwyr fel ei gilydd, mae delio'n effeithiol â throseddau bwyd yn diogelu'r cyhoedd ac uniondeb bwyd yn y DU.

Ar gyfer busnesau, mae mynd i'r afael â throseddau bwyd yn sicrhau bod ansawdd cynnyrch yn bodloni disgwyliadau'r defnyddwyr, sydd yn ei dro yn helpu i gynnal enw da brandiau, gan sicrhau bod cystadleuaeth yn parhau i fod yn deg ac y caiff targedau elw eu gwireddu.

Rydym yn gweithio tuag at yr un amcanion. Rydym am sicrhau'r canlynol:

- bod diwydiant bwyd y DU yn cynnal ei enw da am ragori ac am ddarparu bwyd a diod sydd gyda'r cynnyrch mwyaf diogel ac o'r ansawdd gorau yn y byd; a
- bod y DU yn parhau i fod yn gystadleuol yn y farchnad fyd-eang ac yn parhau i ffynnu.
- Trwy wneud hyn, byddwn yn diogelu'r cyhoedd.

Dyna pam mae'r Uned wedi ymrwymo i weithio gyda'r diwydiant i fynd i'r afael â throseddau bwyd.

Mae angen i'r berthynas waith hon fod yn fuddiol i'r naill ochr a'r llall, fel y gall pawb weld y canlyniadau gwerthfawr a ddaw wrth atal troseddau bwyd. Rydym am ddatblygu perthnasoedd ystyrion â busnesau bwyd bach a mawr sy'n cefnogi ein hethos; yn defnyddio dulliau moesegol; sydd â gweithdrefnau diogelwch a dilysrwydd bwyd priodol ar waith (lle bo'n berthnasol); ac nad ydynt yn achosi unrhyw berygl amlwg i'n henw da drwy gysylltiad.

Rydym yn cydnabod ac yn parchu'r gwahaniaethau a fydd yn bodoli weithiau rhwng amcanion y diwydiant a'r Uned.

Sut gallwn ni gefnogi'r diwydiant?

Trwy ddatblygu a rhannu gwybodaeth am y bygythiadau mae'r DU yn eu hwynebu.

Mae gwella ein dealltwriaeth o droseddau bwyd yn hanfodol er mwyn gallu datblygu atebion i oresgyn y broblem. Er y caiff diogelwch gweithredol ei ystyried bob tro, rydym yn ymroi i rannu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o droseddau bwyd fel ein bod yn gallu cefnogi ein partneriaid i gynyddu eu gallu i ddatblygu atebion. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn helpu partneriaid yn y diwydiant i lunio'r gwasanaethau maent yn eu darparu a'r cynnyrch maent yn ei werthu.

Bydd gwybodaeth sy'n berthnasol i droseddau bwyd yn cael ei rhannu trwy ein hasesiadau. Bydd y rhain naill ai ar gael ar-lein neu fe gânt eu rhannu drwy ddefnyddio rhestr o gyfeiriadau e-bost, yn ddibynnol ar ba mor sensitif yw'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu. I gyrraedd cynulleidfa fawr yn gyflym ynghylch pryderon sy'n sensitif o ran amser, byddwn hefyd yn defnyddio cysylltiadau masnachol perthnasol drwy'r diwydiant. Lle byddai pryderon yn berthnasol i bartneriaid penodol yn y diwydiant, byddwn yn ymdrechu i gysylltu'n uniongyrchol â nhw.

Mae'r Uned o bryd i'w gilydd yn cynhyrchu asesiadau strategol o beryg troseddau bwyd i'r DU. Rydym yn ceisio sicrhau bod yr adroddiadau hyn ar gael mor eang â phosib. Fel rhan o ddatblygu'r cynnyrch hwn, rydym yn ymgysylltu'n helaeth â'r diwydiant er mwyn sicrhau ein bod yn casglu eich profiadau a'ch pryderon.

Yn ogystal â'r asesiad strategol, rydym hefyd yn cyhoeddi bwletinâu gwybodaeth (*intelligence*) sy'n cynnig trosolwg o dueddiadau allweddol a bylchau gwybodaeth mewn perthynas ag anonestrwydd yng nghadwyni cyflenwi'r DU. Caiff y rhain eu rhannu â'r rheiny sy'n gorfodi'r gyfraith a phartneriaid yn y diwydiant, ac maent ar gael trwy'r porth Hwyluso Cyfathrebu (*Smarter Communications*). Gall partneriaid yn y diwydiant wneud cais i gyrchu'r adroddiadau hyn trwy nfcu@food.gov.uk unwaith y

bydd manylion mewngofnodi ar gyfer porth Hwyluso Cyfathrebu yr ASB wedi eu sefydlu.

Mae Gofyniad Gwybodaeth yr Uned yn nodi ar gyfer y diwydiant y blaenoriaethau troseddau bwyd yr ydym yn ceisio gwybodaeth amdanynt. Mae cael gwybodaeth gan y nifer a'r ystod ehangaf posib o ffynonellau yn sicrhau bod ein gwybodaeth (*intelligence*) wedi'i llywio gan y data gorau posib. Darperir y Gofyniad fel rhan o'r canllaw hwn. Gwneir ceisiadau mwy penodol am wybodaeth trwy ein bwletinau gwybodaeth (*intelligence*).

Trwy gynyddu gwaith ymgysylltu a gweithio â phartneriaid

Rydym am sefydlu perthnasoedd hir-dymor gyda busnesau bwyd unigol. Bydd hyn yn cynyddu ein gallu i nodi cyfleoedd i ddelio â throseddwyr, atal troseddau rhag digwydd, a diogelu'r cyhoedd.

Trwy ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd y diwydiant i arwain ein gweithgarwch, gallwn sicrhau bod ein gwaith yn ystyried cymhlethdodau a chraffterau'r sector neu'r gadwyn gyflenwi sy'n cael ei hymchwilio.

Trwy hyn oll, byddwn yn hyrwyddo ac yn hwyluso gweithio mewn partneriaeth lle bynnag y bo'n bosib er mwyn helpu i ddiogelu enw da a llwyddiant y sector bwyd yn y DU.

Sut gallwch chi ein cefnogi?

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys ystod eang o faterion, a byddwn yn croesawu cynigion ar sut gall eich sefydliad neu fusnes bwyd gydweithio orau â ni.

Mae'r hyn y gall yr Uned ei wneud i gefnogi'r diwydiant yn dibynnu'n fawr ar lefel y gefnogaeth a gawn i gynyddu ein dealltwriaeth o droseddau bwyd sy'n effeithio ar y DU, a'n dull o fynd i'r afael â hyn.

Rhowch wybod i ni pan fo gennych amheuon ehangach am drosedd bwyd

Byddem hefyd yn hoffi cael gwybod am unrhyw wybodaeth arall a allai fod gan bartneriaid yn y diwydiant mewn perthynas ag anonestrwydd tybiedig o fewn y gadwyn cyflenwi bwyd. Gall hyn amrywio o frocer yn gwerthu nwydd am bris nad yw'n gwneud synnwyr yn ariannol, hyd at niferoedd cynyddol o gynwysyddion neu labeli cynhyrchion brand wedi eu colli neu wedi'u cofnodi fel 'wedi torri'. Gallwch roi gwybod am unrhyw amheuon yn gyfrinachol i'r Uned, waeth pa mor amwys neu anghyflawn ydynt yn eich tyb chi.

Os oes gan eich sefydliad wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'n gwaith ni, dylech ei rhannu â ni. Gallwn eich sicrhau y bydd unrhyw wybodaeth a rennir â ni wastad yn cael ei thrin yn broffesiynol, ac yn gyfrinachol. Bydd yn cael ei diogelu rhag cael ei datgelu'n amhriodol tu mewn a thu allan i'r ASB.

Gweithio gyda Rheolwr Cysylltiadau

Byddwch yn gallu siarad yn gyfrinachol â'ch Rheolwr Cysylltiadau yn yr Uned. Byddant yn delio ag unrhyw wybodaeth a roddir yn sensitif ac yn y modd priodol fel y nodir mewn manylder isod. Gellir cysylltu yn y lle cyntaf trwy e-bost:

NFCU.Outreach@food.gov.uk

Hyrwyddo'ch cefnogaeth i'r Uned a'r adnodd Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol

Ym mis Mehefin 2016, fe wnaethom lansio Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol: adnodd diogel ar gyfer y rheiny sy'n gweithio o fewn ac o amgylch y diwydiant bwyd er mwyn rhoi gwybod am amheuon o droseddau bwyd. Mae hyrwyddo'r adnodd hwn, gan ac o fewn eich sefydliad, yn dangos eich cefnogaeth i'r ymgyrch atal twyll, ac yn codi ymwybyddiaeth ar draws y diwydiant. Ceir manylion cyswllt ar gyfer Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

Ymgorffori mecanweithiau atal twyll yn eich model busnes

Er mwyn canfod pryderon mewn perthynas â throeddau bwyd posib, mae'n hanfodol bod busnesau bwyd yn deall sut gallai ymddygiad troseddol ymddangos

iddyn nhw. Mae hyn yn eich galluogi i ganfod ac ymateb i beryglon a risgiau a nodir drwy gyflwyno strategaeth gwytnwch twyll.

Mae'r Sefydliad Diogelwch, Uniondeb a Diogelu Bwyd (TiFSiP) wedi cyhoeddi Canllawiau Arfer Da ar Wytwnch Twyll¹ ar gyfer y sectorau bwyd a diod. Mae'r cyhoeddiad hwn yn helpu partneriaid i adolygu a gwella eu protocolau cyfredol, ac yn ei dro, bydd yn cefnogi'r broses adrodd am bryderon i'r Uned.

Yn ogystal, mae'r Uned wedi datblygu Adnodd Hunanasesu Gwytnwch Twyll Bwyd y gellir ei gyrchu trwy wefan yr ASB. Diben yr adnodd yw helpu busnesau i hunanasesu eu risg a'u dull o ymdrin â thwyll bwyd, gan ofyn rhai cwestiynau allweddol a chynnig cyngor ar y meysydd hyn. Cyflwynir yr atebion i'r tîm Atal, a gellir gwneud hyn yn ddi-enw, neu fe allwch roi cyfeiriad cyswllt fel y gall y tîm gysylltu a gweithio gyda chi i'ch helpu i wella eich dealltwriaeth o dwyll bwyd, a'ch gwytnwch yn ei erbyn.

Cydweithio â ni er mwyn mynd i'r afael â throedd a pherygl troedd i chi (vulnerability)

Er mwyn cyflawni canlyniadau atal twyll cadarnhaol i ddefnyddwyr a busnesau bwyd, mae'n amlwg bod angen i'r Uned gael cefnogaeth gan sbectrwm eang o randdeiliaid ar draws y DU a thramor. Bydd cael cymorth gan ei phartneriaid a'i chefnogwyr yn y sectorau preifat a chyhoeddus yn ein galluogi ni i wneud mwy nag a fyddai'n bosib ar ein pennau ein hunain. Er enghraifft, byddem yn agored i unigolion o'r diwydiant ymuno â ni am gyfnodau tymor byr neu hir dymor, er mwyn ein helpu ni i ddeall rhai o agweddau technegol y diwydiant bwyd yn well. Ymddiriedaeth cwsmeriaid yw congllfaen ein gallu gwrth-droeddu. Mae'r berthynas gyda'n cwsmeriaid yn seiliedig ar deyrngarwch ac ymddiriedaeth, a dyma'r ystyriaethau pennaf.

Diogelu eich Gwybodaeth

Megis unrhyw swyddogaeth gwybodaeth (*intelligence*) ym maes gorfodi'r

¹ [Y canllaw arfer da ar wytwnch twyll](#)

gyfraith, mae diogelu ffynhonnell gwybodaeth yn flaenoriaeth allweddol wrth ymdrin ag unrhyw wybodaeth a anfonir yn gyfrinachol at yr Uned.

Rydym ni'n deall pwysigrwydd diogelu gwybodaeth a ddarperir gan fusnes bwyd, a'r risg i'w henw da pe bai hon yn cael ei thrin yn anghywir. Mae diogelu'r wybodaeth hon yn galluogi'r Uned i fynd ar ôl canlyniadau cryfach a mwy effeithiol trwy ddiogelu defnyddwyr a busnesau rhag gweithgarwch troseddol.

Rydym yn croesawu unrhyw wybodaeth sydd gennych am droseddau bwyd, ac nid oes unrhyw rwystrau cyfreithiol i rannu'r wybodaeth gyffredinol hon â ni. Pan fo'r wybodaeth yn cynnwys 'data personol',² mae Deddf Diogelu Data 2018 yn caniatáu i chi rannu'r wybodaeth â ni at ddibenion atal neu ganfod troseddau, neu ddal neu erlyn troseddwyr.

Mae'r wybodaeth yr hoffem i chi ei rhannu wedi ei chynnwys yn Atodiad A i'r ddogfen hon.

Dyma fethodoleg sydd wedi ei rhoi ar waith a'i phrofi yn system cyfiawnder troseddol y DU, ac mae'n gweithio. Rydym am weithio gyda chi mewn modd cyfrinachol i ddiogelu'r cyhoedd rhag canlyniadau troseddau bwyd.

Siarter Diwydiant yr Uned

Mae'r Uned yn ymroddedig i weithio â'r diwydiant bwyd a diod er mwyn sicrhau bod defnyddwyr a busnesau bwyd yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon wedi'u diogelu rhag anonestrwydd difrifol o fewn cadwyni cyflenwi bwyd.

Mae'r ymrwymadau canlynol yn sail i'r modd y byddwn yn gweithio â chi i gyflawni hyn:

Byddwn wastad yn trin yr holl wybodaeth a ddarperir gennych chi â phroffesiynoldeb a chyfrinachedd, a gan ei diogelu rhag cael ei datgelu'n amhriodol

Rydym yn bwriadu i'n perthynas â chi fod yn fuddiol i'r naill fel y llall. Byddwn bob tro yn ystyried awgrymiadau ar sut y gallwn ddatblygu ein perthynas

² Fel y'i diffinnir gan Ddeddf Diogelu Data 1998

Byddwn yn cydnabod ac yn croesawu gwahaniaethau barn, a byddwn yn ymagweddu at eich blaenoriaethau a'ch cyfyngiadau gyda dealltwriaeth a pharch.

1. Byddwn yn rhannu ein dealltwriaeth o natur a maint troseddau bwyd â chi, er mwyn eich cefnogi wrth adeiladau a chynnal gwytnwch yn erbyn bygythiadau o'r fath
2. Byddwn yn gweithio â busnesau bwyd i ymchwilio i honiadau o droseddau bwyd a lleihau cyfleoedd troseddu
3. Byddwn yn eich cefnogi wrth ddiogelu enw da ac uniondeb eich brand trwy sicrhau bod marchnad y DU yn parhau i fod yn gystadleuol ac yn broffidiol.

Dyma'r prosesau y byddwn yn eu cymhwyso wrth drin eich gwybodaeth:

- Byddwn yn ei chofnodi, ei chadw, ei hadolygu a'i datblygu i'n galluogi i nodi unrhyw destunau ymholiad mewn perthynas â'r ymddygiad yr adroddwyd amdano.
- Byddwn yn ei storio ar systemau diogel lle bydd y mynediad ato gan gydweithwyr yr Uned yn gyfyngedig i achosion lle mae "angen gwybod".
- Pan fo gwybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei defnyddio fel man cychwyn i ymchwiliad, bydd ymchwilwyr yn gweithio i gasglu prawf tystiolaethol o unrhyw droseddau, i ddiogelu eich gwybodaeth rhag dod yn dystiolaeth sydd ar gael i'r amddiffyniad.
- Pan fyddwn yn cael ein herio mewn achos llys i ddatgelu tarddiad gwybodaeth o'r fath, byddwn yn gwneud cais i'r barnwr am Imiwnedd Lles y Cyhoedd o dan Ddeddf Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996.

Cysylltu â ni

Os yw eich busnes wedi bod yn destun trosedd bwyd, neu os hoffech rannu amheuon neu bryderon am droseddau bwyd â ni, cysylltwch â ni:

Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol: 0207 276 8787

E-bost: FoodCrime@food.gov.uk

Ffurflen we: [Rhoi gwybod am drosedd bwyd](http://Rhoi_gwybod_am_drosedd_bwyd) (food.gov.uk)

Gallwch hefyd gysylltu â'ch Rheolwr Cysylltiadau yn yr Uned i rannu'r wybodaeth honno. Gallai hyn fod yn arbennig o briodol lle mae'r wybodaeth yn sensitif i fusnes. Trwy ddatblygu'r perthnasoedd proffesiynol hyn, ein nod yw datblygu eich ymddiriedaeth ynom i drin gwybodaeth sensitif o'r fath. Efallai yr hoffech nodi un pwynt cyswllt i weithredu ar eich rhan wrth adrodd gwybodaeth gennych i'ch Rheolwr Cysylltiadau.

Angen siarad â ni?

Er mwyn trafod cyfleoedd i weithio'n agosach â ni, neu er mwyn gwneud cais i gyrchu'r asesiadau gwybodaeth rydym yn eu cynhyrchu, cysylltwch â thîm Rheoli Cysylltiadau'r Uned trwy NFCU.Outreach@food.gov.uk

Atodiad A – Gofyniad Gwybodaeth yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Pryd digwyddodd hyn?

Amseroedd a dyddiadau

Ble digwyddodd hyn?

Gall hyn gynnwys disgrifiad o gynllun adeilad, ystafelloedd arwyddocaol, adeiladau allanol ac ati? – a yw'n safle busnes, annedd breifat, man cyhoeddus, ac ati? (Cyfeiriad gan gynnwys cod post?)

Pwy sy'n rhan o hyn?

Cwmni, cyflenwr, dosbarthwr/casglwr, unigolyn preifat, gweithiwr
Enw, Disgrifiad, dyddiad geni, Cyfeiriad, Rhif Ffôn ac E-bost

Pa gerbydau sy'n cael eu defnyddio?

Plât Cofrestru, gwneuthurwr, lliw, marciau (enwau cwmnïau ac ati) unrhyw beth amlwg. Faniau wedi'u hoeri, lorïau, ceir ac ati

Pa weithgaredd sy'n cael ei gynnal?

Amnewid, Dargyfeirio gwastraff, Difwyno, Dwyn, Twyll Dogfennau, Prosesu Anghyfreithlon. Camgynrychioli (nodwch bopeth sy'n berthnasol)

Sut mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal?

Y dull gweithredu a'r technegau sy'n cael eu defnyddio. Cynifer o fanylion ag sy'n berthnasol

Pwy sydd ar ei ennill o ganlyniad i hyn?

Sut maent yn ennill arian?

Pwy sydd ar ei golled o ganlyniad i hyn?

Hyd a lled y golled ariannol a'r risg i iechyd y cyhoedd?